



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig
a Cheltaidd Prifysgol Cymru

University of Wales Centre
for Advanced Welsh and Celtic Studies



Tystysgrif Polisi a Chynllunio Iaith

Hanfodion Cynllunio Iaith

DATA A DEMOGRAFFEG

Elin Haf Gruffydd Jones, Catrin Llwyd

Llio Daglish, Patience Jones, Llywodraeth Cymru

Amserlen Sesiwn 5

9.30	Dewis Trefn y Cyflwyniadau Llafar: Aseiniad 1 Cyflwyniad i'r sesiwn
10:30	Llio Dalglish a Patience Jones, Llywodraeth Cymru: Demograffeg
11:15	Egwyl
11:30	Trafodaeth: Cerrig Milltir a Demograffeg
12:20	Dysgu Cyfeiriol

Data a demograffeg: rhai ystyriaethau

Data domestig

1. Pa ddata sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd am sefyllfa ieithyddol ieithoedd lleiafrifedig?
2. Pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn? Pa mor aml? I bwy? Gan bwy ac ym mha ddull?

Cymharu data'n rhyngwladol

1. I ba raddau y gellir cymharu data ar draws gwahanol wledydd?
2. Pa gysyniadau creiddiol sydd yn cael eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau?



Data a demograffeg: rhai ystyriaethau

Data domestig

1. Pa ddata sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd am sefyllfa'r Gymraeg?
2. Pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn? Pa mor aml? I bwy? Gan bwy ac ym mha ddull?

Cyfrifiad – bob degawd

Arolwg Blynyddol y Boblogaeth -

Addysg – CYBLD

Addysg Uwch - MEDR (Prifysgolion), HESA astudio drwy'r Gymraeg

Canlyniadau lefel A, iaith gyntaf TGAU. Cofrestriadau drwy'r Gymraeg ar gyfer TGAU
mewn ysgolion dwyieithog yn bendant

Data Siarter iaith – GWE iaith


Mentrau iaith

BRO – arolwg sosioieithyddol

Arolygon Comisiynydd,

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Arolwg Defnydd iaith y Llywodraeth – ddaeth i ben yn ystod Covid



Data a demograffeg: rhai ystyriaethau

Cymharu data'n rhyngwladol

1. I ba raddau y gellir cymharu data ar draws gwahanol wledydd?
2. Pa gysyniadau creiddiol sydd yn cael eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau?

Cysyniadau yn Iwerddon (Gweriniaeth) – Cyfrifiad 2022

<https://www.cso.ie/en/census/census2027consultation/census2022householdformquestions/>

Cwestiwn 13: Gwybodaeth + amllder defnydd

- | | |
|------------------------------------|--|
| (1) dyddiol o fewn y system addysg | (2) dyddiol tu allan i'r system addysg |
| (3) wythnosol | (4) llai aml |
| | (5) byth |

Cwestiwn 14: Lefel Gwybodaeth

- | | | |
|-------------|--------|----------------------|
| (1) Da iawn | (2) Da | (3) Ddim yn dda iawn |
|-------------|--------|----------------------|

Cysyniadau yng Ngwlad y Basg – 2021 Gwybodaeth 'weithredol' a 'goddefol';

Defnydd a gwybodaeth mewn cymhariaeth a'r ieithoedd eraill sy'n bresennol yn y gymdeithas. https://www.euskadi.eus/eas_research/web01-a3eas/en/



An
Phríom
Staidri

Llio Dalglish a Patience Jones

Llywodraeth Cymru



EGWYL



Demograffeg: Tasg



Ewch i <https://cy.ons.gov.uk/datasets/create>



Chwiliwch am ddata ieithyddol sydd o ddiddordeb i chi / eich ardal chi.



Demograffeg: Trafodaeth

- Pa mor bwysig yw data iaith yng nghyd-destun polisi a chynllunio iaith?
- Pa ddulliau casglu data iaith ydych chi'n eu defnyddio yn eich gweithleoedd? At ba bwrpas?
- Beth yw'r heriau?



EGWYL



Olwyn dân

Miquel Strubell

Model cymdeithasol



Cylchdro “Caffael a Throsglwyddo”


Caffael: Addysg, Teulu, Cymdeithas

Defnydd: Peuoedd, perthnasau

Hunaniaeth: Cylchoedd,
Cymdogaeth, Diddordebau,

Arfer: Ymddygiad, Hyder,
Normalrwydd


Trosglwyddo i eraill yn y gymuned,
rhwydweithiau, teuluoedd



Ó Giollagáin (i'w gyhoeddi'n fuan): Societal Minority-Language Dynamics:

→ **Deinamig llawn**

Dynamics of Minority Sociolinguistic Inheritance as an Emergent Feature



Trosglwyddo a Chaffael, Datblygu a Defnyddio Iaith #1 Cyfnod addysg

Dyfeisiwyd gan Elin Haf Gruffydd Jones, Catrin Llwyd a Richard Glyn Roberts 2025 gan gyfeirio at Fishman (1991), Morris & Williams (1999) a Pujolar & Puigdevall (2014)

Yn ystod plentyndod a glaslencyndod, mae trosglwyddiad a chaffael iaith, datblygu a defnyddio yn digwydd mewn tri phrif cyd-destun a phroses:


1. Yn y Cartref a thrwy'r Teulu
2. Yn yr Ysgol a thrwy Addysg
3. Yn y Gymuned a thrwy Gymdeithasoli

Dwysedd y cyd-destun: pa mor hyfyw yw'r Gymraeg ym mhob cylch

Trosglwyddiad a chaffael **rhwng pobl o'r un genhedlaeth** e.e. brodyr a chwiorydd, cyd-ddisgyblion, ffrindiau, cymdogion, cyd-aelodau)

TRAFODAETH

- Beth yw dwysedd y Gymraeg yn y tri chylch?
- Pa gyfuniadau yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth drosglwyddo a chaffael y Gymraeg?
- I ba raddau mae modd creu ymyraethau polisi llwyddiannus yn y tri chylch?
- Beth yw effaith y cylch coch ar bob un o'r cylchoedd eraill a'r cyfuniadau?



Trosglwyddiad a chaffael **rhwng pobl o wahanol genedlaethau** e.e. rhieni, gofalwyr, brodyr a chwiorydd hŷn, teulu estynedig, athrawon, arweinwyr gweithgareddau, cymdogion

Deinameg fel arfer o'r genhedlaeth hŷn i'r iau, ond nid bob tro

Amodau strwythurol: gwleidyddol a sosio-economaidd & Ymyraethau ieithyddol bwriadus

ar lefelau lleol, rhanbarth, cenedl, gwladwriaeth, byd-eang

mewn gwahanol beuodd ieithyddol (gan gynnwys digidol)

Trosglwyddo a Chaffael, Datblygu a Defnyddio Iaith #2 Cyfnod ar ôl addysg

Dyfeisiwyd gan Elin Haf Gruffydd Jones, Catrin Llwyd a Richard Glyn Roberts 2025 gan gyfeirio at Fishman (1991) a Pujolar & Puigdevall (2014)

Yn ystod oes unigolyn, mae trosglwyddiad a chaffael iaith, datblygu a defnyddio yn digwydd mewn tri phrif cyd-destun a phroses:

1. Yn y Cartref a thrwy'r Teulu
2. Yn y Gweithle a thrwy Weithio*
3. Yn y Gymuned a thrwy Gymdeithasoli

*gweithio yn cynnwys gwaith cyflogedig, gwaith tŷ, gofalu, gwirfoddoli...

Dwysedd y cyd-destun: pamor hyfyw yw'r Gymraeg ym mhob cylch

Trosglwyddiad a chaffael **rhwng pobl o'r un genhedlaeth** e.e. brodyr a chwiorydd, cyd-ddisgyblion, ffrindiau, cymdogion, cyd-aelodau)

TRAFODAETH

- Beth yw dwysedd y Gymraeg yn y tri chylch?
- Pa gyfuniadau yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth drosglwyddo a chaffael y Gymraeg?
- I ba raddau mae modd creu ymyraethau polisi llwyddiannus yn y tri chylch?
- Beth yw effaith y cylch coch ar bob un o'r cylchoedd eraill a'r cyfuniadau?

(3) Cymuned & Cymdeithasoli

- ffrindiau (a chariadon)
- bywyd bob dydd (cymdogion, siopau lleol)
- gweithgareddau hamdden strwythuredig

(1) Cartref & Teulu

- rhieni/gofalwyr
- brodyr a chwiorydd
- teulu estynedig

(2) Gweithle & Gweithio

- cyd-weithwyr a gweithwyr eraill
- cleientiaid a chwsmeriaid
- llafar / ysgrifenedig
- eraill yn ystod y diwrnod / cyfnod gwaith

Trobwyntiau neu 'mudes'

Trosglwyddiad a chaffael **rhwng pobl o wahanol genedlaethau** e.e. rhieni, gofalwyr, brodyr a chwiorydd hŷn, teulu estynedig, athrawon, arweinwyr gweithgareddau, cymdogion

Deinameg fel arfer o'r genhedlaeth hŷn i'r iau, ond nid bob tro

Amodau strwythurol: gwleidyddol a sosio-economaidd & Ymyraethau ieithyddol bwriadus

ar lefelau lleol, rhanbarth, cenedl, gwladwriaeth, byd-eang

mewn gwahanol beuodd ieithyddol (gan gynnwys digidol)

Dysgu Cyfeiriol

Darlleniad Pujolar a Puigdevall

Yn y sesiwn nesaf: Gwlad y Basg





Canolfan Uwchefrydiau Cymreig
a Cheltaidd Prifysgol Cymru

University of Wales Centre
for Advanced Welsh and Celtic Studies

